CYFRES C10

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd 19: 19-21 a 2 Brenhinoedd 2: 1-15

Mae'r stori hon yn sôn am:
Duw gyda ni.

Stori 1 Eliseus - Galwad i ddilyn.

Un diwrnod, daeth Elias o hyd i ddyn ifanc o'r enw Eliseus yn gweithio mewn cae. Taflodd ei glogyn drosto. Gwyddai Eliseus fod hyn yn golygu y dylai adael ei waith fel ffermwr a mynd gydag Elias i wasanaethu Duw.

Ffarweliodd yn gyflym â'i deulu a dilynodd Elias.

Ychydig yn ddiweddarach, roedd Elias ac Eliseus gyda'i gilydd pa ddigwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Dyma nhw'n clywed sŵn gwynt mawr ac yn sydyn cipiwyd Elias i fyny i'r Nefoedd mewn cerbyd rhyfel oedd yn edrych fel pe bai ar dân.

Roedd ffrind Eliseus wedi diflannu, ond roedd Duw yn dal gydag Eliseus. Nawr, byddai Duw yn rhoi i Eliseus y nerth roedd ei angen arno i wneud Ei waith Ef.

Gyda phwy aeth Eliseus? E _ _ _ _ .

I ble'r aeth Elias yn y cerbyd rhyfel?

I'r N _ _ _ _ _ _.

Pwy oedd yn dal gydag Eliseus? D _ _.

Enw

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd
4: 8-37

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gallu Duw dros farwolaeth.

Stori 2 Eliseus - helpu ffrind.

Roedd Eliseus yn teithio o gwmpas y wlad yn gwneud gwaith Duw. O bryd i'w gilydd, byddai'n ymweld â gwraig oedd yn garedig iawn wrtho. Paratôdd hon ystafell wely arbennig a bwyd da ar ei gyfer. Addawodd Eliseus i'r wraig y byddai Duw yn rhoi iddi fab bach cyn hir, a dyna'n union wnaeth Ef!

Un diwrnod, pan oedd y bachgen yn hŷn, aeth yn sâl iawn – mor sâl nes iddo farw. Daeth ei fam o hyd i Eliseus a daeth ef yn ôl i'r tŷ gyda hi.



Yn gyntaf, gweddïodd Eliseus ar Dduw ac yna anadlodd i gorff y bachgen. Daeth y bachgen yn fyw unwaith eto! Dyma fe'n tisian saith gwaith ac yna agorodd ei lygaid.

Digwyddodd y peth rhyfeddol hwn oherwydd bod Eliseus wedi cael nerth Duw. Dysgodd pob un yn y teulu hwnnw mor nerthol a grymus yw Duw.

Lliwiwch y llun.

Rhowch (✓) wrth ymyl y brawddegau sy'n GYWIR a (✗) wrth ymyl y rhai ANGHYWIR.

Roedd y wraig yn garedig. .....

Roedd gan y wraig fab bach. .....

Aeth tad y bachgen i chwilio am Eliseus. .....

Nerth Duw ddaeth â'r bachgen nôl yn fyw. .....

Enw

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd
5: 1-19

Mae'r stori hon yn sôn am:
Cariad Duw tuag at bawb.

Stori 3 Eliseus - iacháu dyn gwahanglwyfus.

Roedd Naaman yn filwr pwysig iawn. Un diwrnod, aeth yn sâl iawn gan fod clefyd drwg ar ei groen. Doedd dim modd i unrhyw feddyg ei wella. Yn nhŷ Naaman, roedd merch ifanc oedd wedi dod o'r wlad lle'r oedd Eliseus yn byw. Roedd hi'n siŵr y gallai Duw helpu Eliseus i wella Naaman.



Felly, dyma Naaman yn mynd i chwilio am Eliseus. Dywedodd Eliseus wrtho am fynd i ymolchi saith o weithiau yn Afon yr Iorddonen. Roedd yr afon yn fwdlyd ac yn oer a doedd Naaman ddim eisiau ymolchi yno, ond dyna'r unig ffordd y gallai gael ei iacháu.

Pan wnaeth Naaman fel y dywedodd Eliseus, edrychodd ar ei groen ac roedd ei glefyd wedi diflannu.

Roedd Naaman mor hapus nawr, wedi iddo ufuddhau i orchymyn Eliseus. Gwyddai Naaman hefyd mai Duw oedd wedi rhoi'r gallu i Eliseus ei iacháu.

Sawl gwaith y bu'n rhaid i Naaman ymolchi?

(Lliwiwch yr ateb cywir)

1 2 5 7

Enw

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd
5: 19-27

Mae'r stori hon yn sôn am:
Dweud y gwir

Stori 4 Eliseus - mae twyllo yn dwyn cosb.

Roedd Naaman ar ei ffordd adref pan welodd rywun yn rhedeg ar ei ôl. Gehasi, gwas Eliseus oedd yno. Gwyddai Gehasi fod Naaman wedi dod ag anrhegion i ddiolch i Eliseus am ei wella ond doedd Eliseus ddim wedi eu derbyn.

Nawr, roedd Gehasi barus eisiau cael yr anrhegion iddo'i hun! Dywedodd Gehasi gelwydd wrth Naaman. Dywedodd wrtho fod Eliseus wedi newid ei feddwl a'i fod angen yr anrhegion wedi'r cwbl. Felly, dyma Naaman yn rhoi dwy god o arian a rhywfaint o ddillad i Gehasi. Yna, cuddiodd Gehasi'r cyfan yn ei dŷ. Roedd Gehasi yn credu nad oedd neb yn gwybod am yr hyn wnaeth e, ond mae Duw yn gwybod popeth! Bu'n rhaid i Dduw gosbi Gehasi am ei ddrygioni. Trodd croen Gehasi yn wahanglwyfus, yr un fath â chorff Naaman ar un adeg.

Lliwiwch y llun o Gehasi yn hel ei esgusodion.

Gafodd Gehasi ei gosbi am y pethau drwg a wnaeth?

Do / Naddo **(Rhowch linell drwy'r ateb anghywir)**

Mae pob un ohonom wedi gwneud pethau drwg ac mae angen i ni ofyn i Dduw faddau i ni. .

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120